Coleg Gwent

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

OCR Cambridge Technical Subsidiary Diploma in Media Level 3

Yn gryno

Byddwch yn datblygu'r sgiliau ymarferol, creadigol a pherfformio sydd eu hangen arnoch i gael yr hyder mewn addysg uwch neu o fewn y gweithle.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb brwd yn y cyfryngau digidol

... Rydych eisiau ymdrin ag ystod eang o ddisgyblaethau

... Ydych eisiau cyfuniad o astudio ymarferol a damcaniaethol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Ymunwch â'r cwrs arloesol hwn i ddatblygu a gwella eich sgiliau creadigol. Mae dysgu sut i weithio a meddwl yn feirniadol yn sgil hynod ddymunol a throsglwyddadwy.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae ein cyrsiau'r cyfryngau yn ymdrin â disgyblaethau megis ffilm, teledu, radio, animeiddio a dylunio gwefannau. Mae tiwtoriaid yn gyfredol ac yn berthnasol wrth iddynt barhau i weithio yn eu meysydd arbenigol eu hunain, a'r ethos proffesiynol hwn a'r profiad galwedigaethol a gewch fydd yn gwneud y gwir wahaniaeth wrth i chi astudio o fewn maes y diwydiannau creadigol.

Mae pob ysgol o fewn y maes hwn yn angerddol, modern a blaengar. Mae ein cyfleusterau yn wych, ac mae'r amgylchedd wedi ei ddylunio i chi archwilio a datblygu eich creadigrwydd.

Cewch eich asesu drwy waith prosiect parhaus, gan gynnwys canlyniadau ysgrifenedig ac ymarferol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ymchwil a dadansoddi, defnydd creadigol ac archwilio ystod eang o dechnolegau, yn ogystal â gwerthuso eich gwaith eich hun.

Bydd gofyn i chi gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac asesiadau o gyfoedion, cymryd rhan mewn prosiectau grwp a go iawn a rhoi cyflwyniadau ffurfiol ac anffurfiol fel rhan o'ch proses asesu. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Cynhyrchu'r Cyfryngau Creadigol Lefel 3
Cymwysterau cynorthwyol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, mae angen i chi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, gan gynnwys mewn Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU gradd C neu uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Dylech allu datblygu syniadau creadigol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cynhyrchu a gallu archwilio ystod eang o brosesau technolegol. Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, y gallu i gymell eich hun a brwdfrydedd tuag at y pwnc. Mae disgwyl i chi barhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd cwblhau Diploma 90 Credyd Blwyddyn 1 yn llwyddiannus yn eich caniatáu i fynd ymlaen i Flwyddyn 2 a chwblhau'r Diploma Estynedig llawn. Wedi hynny, mae llwybrau dilyniant yn cynnwys:

Gradd Sylfaen mewn Cynhyrchu'r Cyfryngau ar Gampws Crosskeys
Addysg uwch mewn ystod o ddisgyblaethau'r cyfryngau
Cyflogaeth yn y cyfryngau megis cynhyrchu ffilm / teledu neu ôl-gynhyrchu, cynhyrchu radio, hysbysebu, a/neu marchnata/cyhoeddusrwydd.
Cyfleoedd gyrfa posibl yn y cyfryngau mewn rolau fel animeiddiwr, golygydd comisiynu, marchnatwr digidol, cynorthwyydd golygyddol, cyfarwyddwr ffilm, golygydd ffilm/fideo, dylunydd graffeg, technegydd golau, darlledu/ffilm/fideo, rheolwr lleoliad, golygydd erthyglau cylchgrawn, newyddiadurwr cylchgrawn, cynllunydd y cyfryngau, cynllunydd cynhyrchu print, ymchwilydd rhaglen, darlledu/ffilm/fideo, cynorthwyydd darllediadau radio, cynhyrchydd radio, rhedwr, darlledu/ffilm/fideo, technegydd sain, darlledu/ffilm/fideo, ymchwilydd telegyfathrebu, gweithredwr camera teledu, cynhyrchydd teledu/ffilm/fideo, rheolwr llawr teledu, cydlynydd cynhyrchu teledu, dylunydd gwefannau

Gwybodaeth Ychwanegol

Fel rhan o'r gofynion mynediad bydd disgwyl i chi fynychu sesiwn flasu.